Creu cynhwysiant cymdeithasol, ysbrydoli uchelgais artistig a darparu adnodd ar gyfer y gymuned ehangach

centre CELF o Gwmpas

Enw'r Polisi Cyfle Cyfartal

Arwyddwyd: Paul Jays	**Dyddiad:23/08/21**
Cadeirydd Ymddiriedolwyr Celf o Gwmpas	**Dyddiad adolygu: Medi 2022**

Datganiad o fwriad;

Mae Celf o Gwmpas wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Rydym yn rhannu gweledigaeth Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 'Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau'n ganolog i fywyd a llesiant y genedl, gan wneud ein sir yn lle cyffrous a bywiog i fyw, gweithio ac ymweld â hi. Golyga hyn cydnabod hawl ddiwylliannol ac anghenion creadigol pob unigolyn a chymuned ledled Cymru.'

Mae Celf o Gwmpas yn cydnabod cyfrifoldebau cyfreithiol penodol y sector cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi a chynorthwyo i ddatblygu ei waith cydraddoldeb. Mae'r dyletswyddau cyffredinol sy'n rhan annatod a phwysig o'r mecanweithiau ar gyfer sicrhau bod nodau Deddf Cydraddoldeb 2010 yn cael eu cyflawni yn cynnwys rhoi sylw dyledus i'r angen i:

1. ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
3. meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

Mae Celf o Gwmpas yn bwriadu cwrdd â'r gofynion cyfreithiol hyn a rhagori arnynt. Ein huchelgais yw bod yn sefydliad celfyddydol sy'n gosod safon uchel yn ei arfer gan gydnabod, gwerthfawrogi a dathlu amrywiaeth, chwalu rhwystrau a pharhau i weithio i wella meysydd lle mae data ac ystadegau'n dangos meysydd gwendidau.

Cyfrifoldebau:

1. **Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr:** Bwrdd Ymddiriedolwyr Celf o Gwmpas sy'n gyfrifol am weithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn yn gyffredinol.

2. **Cyfrifoldebau Staff:** Mae staff Celf o Gwmpas yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau cyfreithiol a nodir yn y datganiad o fwriad ac nid yn unig yn cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldebau wrth gyflawni eu gwaith ond hefyd yn gefnogol i greu diwylliant sefydliadol lle caiff amrywiaeth ei ddathlu. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan weithredol wrth weithio ar yr amcanion a osodir yn y cynllun gweithredu.
   Er na fydd gwirfoddolwyr ac aelodau staff llawrydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun gweithredu, bydd gan yr holl staff gyfrifoldeb i weithio gyda'i gilydd i wneud Celf o Gwmpas yn sefydliad arweiniol, gan osod safonau uchel ar gyfer sefydliadau celfyddydol eraill yn lleol ac yn genedlaethol.
3. **Cydrifoldebau mynychwyr gweithdai a phawb sy'n defnyddio adeiladau Celf o Gwmpas:**
   Rhaid i bawb sy'n mynd i mewn i adeiladau Celf o Gwmpas neu'n cymryd rhan mewn gweithdai barchu eraill ac helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf.

Amcanion Cydraddoldeb Strategol Celf o Gwmpas

1. Ymgysylltu, ymgynghori a hysbysu gydag artistiaid a'r gymuned yr ydym yn ceisio ei chyrraedd ac wrth wneud hynny, herio a chwestiynu ein gwybodaeth a'n profiad

2. Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru

3. Gweithio i sicrhau cyfleoedd gyrfa, telerau ac amodau teg a chyfartal, CPD a chyflog i bawb sy'n gweithio i Gelf o Gwmpas

4. Cynyddu amrywiaeth y rhai sy'n ymgysylltu â'r celfyddydau mewn gweithdai a digwyddiadau.

Trefniadau a gweithdrefnau:

Gweler y cynllun gweithredu Cydraddoldeb - atodiad 1

Codi ymwybyddiaeth a hyfforddi

- Datganiad a chyfrifoldebau cyfle cyfartal (CC) i'w cynnwys yn y llawlyfr Staff ac yn ystod hyfforddiant sefydlu
- Gwybodaeth CC i'w harddangos ym mynedfa Canolfan Celf
- Gwybodaeth a chyfrifoldebau CC i'w cynnwys mewn cyfrifoldebau hurwyr
- Adnabod a chostio ymhellach adnoddau a chyfleoedd CPD CC